Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** | |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** | |
| **Dyddiad:** | **22 Awst 2017** | |
| **Amser:** | **10:00 – 12:00** | |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Prif Gwnstabl Mark Collins (PG)<br>Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (CM) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Arol. Gwyndaf Bowen (GB)<br>Miss Mair Harries, Swyddog Cymorth Gweithredol, SCHTh (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mrs Jayne Woods, Prif Swyddog Ariannol, SCHTh (PSA)<br>DS Sian Davies, Swyddog Staff (DS SD)<br>Mrs Sharon Richards, Rheolwr Llywodraethu (SR) |

| **CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 04/07/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB 2181** | **Trafodaethau mewn perthynas â gwaith ystadau yn Llanelli ac Aberhonddu i gael eu cynnal yn y Bwrdd Ystadau ar 5/7/17 ac adroddiadau ffurfiol ar y prosiectau hynny i gael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y BP.** | **DBG** |

| **PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 22/08/2017** | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **Cynnydd** |
| **PB T2 39** | **Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i gefnogi un swydd Ymchwilydd Twyll ar gyfer 12 mis gydag adolygiad ar ôl 6 mis. Mae hyn yn lle ariannu ymgyrch twyll arall a bennwyd yn flaenorol – cyfeiriwch at gofnod penderfyniad DLl 031.** | **DBG** |

**2. Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Plismona a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf a materion yn codi**

Cytunwyd bod y cofnodion o'r BP blaenorol yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Camau gweithredu o gyfarfodydd blaenorol.

PB 2179: Cynhelir grŵp ffocws i roi cyfle i uwch swyddogion a staff roi adborth ar Strwythurau Llywodraethu arfaethedig: Holodd y CHTh ynghylch amserlen ar gyfer yr Achos Busnes Llywodraethu mewn perthynas â chyfleoedd ar gyfer cydweithio, a

diweddarodd y DBG y Bwrdd ar gyfarfod diweddar gyda swyddog allweddol. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag ymddeoliad y CA o HDP.

PB 2173: PG a'r CHTh i ymgysylltu â Phlismona Bro er mwyn archwilio i swyddogaeth y rôl Dinasyddion mewn Plismona: Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â Chydlynydd Dinasyddion mewn Plismona posibl ar gyfer Cymru. Gofynnodd y PG am i gwestiynau mewn perthynas â hunaniaeth y Cydlynydd gael eu gosod ar agenda Cyfarfod Prif Gwnstabliaid Cymru Gyfan. Dywedodd y DBG y dylai'r mater fod yn fater i'w ystyried ar agenda Grŵp Plismona Cymru Gyfan.

**Cam Gweithredu: PS i ymgysylltu â SCHTh Gogledd Cymru mewn perthynas â chynnwys trafodaeth ar Ddinasyddion Mewn Plismona ar agenda nesaf GPCG.**

## 3. Diweddariad y Prif Gwnstabl

Diweddariad Gweithredol

Dywedodd y PG bod dau swyddog wedi'u hatal o'u dyletswydd ar hyn o bryd. Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas ag achos camymddwyn. Hefyd, diweddarodd y PG y Bwrdd am faterion a oedd yn cynnwys tanio arf saethu yn Sanclêr, digwyddiad arfau saethu yn Llansteffan ac wyth ymosodiad ar swyddogion heddlu ers y cyfarfod Bwrdd diwethaf, ond nid yn gyfyngedig i hynny.

Holodd y CHTh pa un ai a oedd Ymgyrch Lion yn ardal Dinbych-y-pysgod dal yn weithredol, a dywedodd y PG wrtho y byddai'n mynd allan ar batrôl gyda swyddogion Dinbych-y-pysgod ar 25 Awst.

Diweddariad sefydliadol

Dywedodd y PG bod camerâu fideo a wisgir ar y corff wedi'u cyflwyno i tua 80% o Swyddogion, ac mae'n ymddangos yn llwyddiannus. Dywedodd y CHTh ei fod wedi ymgysylltu â staff yn y Sioe Frenhinol a sioe Sir Benfro, ac roedd pawb yn canmol y camerâu fideo a wisgir ar y corff. Trafododd y PG gynnydd mewn rhagweithgarwch ledled yr Heddlu, gan gynnwys arfau saethu'n cael eu hadfer, cyffuriau'n cael eu hadfer, a gwaith da arall a oedd yn digwydd. Dywedodd y PG y bu 13 arést yng Ngŵyl Jas Aberhonddu. Canmolodd y PG y cymorth a roddwyd i HDP gan amrediad o sefydliadau eraill wrth chwilio am unigolyn coll yn ystod y Sioe Frenhinol. Daethpwyd o hyd i'r unigolyn hwnnw'n farw yn ddiweddarach.

Diweddarodd y PG y CHTh ar amrediad o ymweliadau rhanbarthol a wnaeth gan gynnwys De Ceredigion a Sir Benfro ar 4 Awst, cyfarfod gyda Lesley Griffiths AS a'r Lansiad o'r Strategaeth Troseddau Gwledig a lansiwyd yn y Ffair Aeaf yn Llanfair-ym-Muallt fis Tachwedd y byddai'r CHTh yn gysylltiedig ag ef.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chais gan Gyngor Tref ym Mhowys ar gyfer cyfarfod gyda'r PG neu'r CHTh. Derbyniodd y PG y cais yn lle'r CHTh a fydd yn mynychu

cyfarfod Cyngor Tref yng Ngheredigion yr un noson. Diweddarodd y PG y Bwrdd ar y daith feiciau Undod a welodd hyd at 25 o feicwyr yn cymryd rhan yn Nyfed-Powys.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyfle am secondiad ar gyfer Prif Swyddog o fewn Llywodraeth Cymru. Dywedodd y PG bod y broses gyfweld ar gyfer Ditectif Brif Uwch-arolygwyr yn digwydd ar 24 Awst a 4 Medi. Hysbysodd y PG y Bwrdd fod nifer o swyddogion yn cymryd rhan yn nigwyddiad Pride yng Nghaerdydd dros y penwythnos, gan gynnwys y DBG Davies. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â threfnu'r Seminar Cyllid ar 8 Medi ac ymweliad gan yr Ysgrifennydd Parhaol ar yr un dyddiad.

**Cam Gweithredu: PS i drefnu diweddariad gan (PR) cyn 8 Medi.**

**4. Diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

<u>Cenedlaethol</u>

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chyllid gan y Gweinidog Plismona ar gyfer heddluoedd. Dywedodd y PS fod y Gweinidog wedi cyhoeddi y byddai'n cael trafodaethau â'r Trysorlys mewn perthynas â chyllid ar gyfer heddluoedd pe bai heddluoedd yn medru dangos angen ar gyfer mwy o gyllid ac effeithlonrwydd cyfredol. Dywedodd y PG bod y Grŵp Prif Swyddogion wedi cynnal cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr Cyllid (CC) mewn paratoad ar gyfer Seminar Cyllid a gynhelir gan SCHTh ar 8 Medi.

<u>Lleol</u>

Symudodd y drafodaeth ymlaen at Ystadau. Dywedodd y PG ei fod wedi gofyn i Paul Jones a'r Prif Uwch-arolygydd Claire Parmenter (CP) i gynhyrchu papur ar y pwnc erbyn mis Medi. Cafwyd trafodaeth ynghylch y gyllideb refeniw mewn perthynas â'r cynnydd praesept yn 2017. Dywedodd y CHTh y gall fod cyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda gwasanaethau Golau Glas eraill yng Nghymru, Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Unedol. Hefyd, dywedodd y CHTh y byddai'n hoffi gwell dealltwriaeth o sut beth fyddai cydweithio ar gyfer HDP yn y dyfodol agos yn dilyn y Seminar Cyllid ar 8 Medi. Fe wnaeth y CHTh hi'n glir y byddai ei ffocws ar arbedion effeithlonrwydd, ystadau a chyllid. Trafododd y CHTh y bloc Llety yn y Pencadlys gan ddweud y byddai'n ystyried achos busnes cadarn ar gyfer y cyfleuster llety/hyfforddi newydd mewn cydweithrediad ag eraill gyda chyfalaf ychwanegol gan bartneriaid eraill, cyfalaf gan HDP a pheth benthyca wedi'i alinio i'r prosiect hwnnw.

**Cam Gweithredu: Cyflwyno achos busnes cadarn ar gyfer y cyfleuster llety/hyfforddiant newydd i'r CHTh.**

Symudodd y drafodaeth ymlaen at recriwtio, a dywedodd y PG y dylai'r Heddlu fod ar sefydliad o 100% erbyn 31 Hydref.

Dywedodd y PG fod HDP yn un o saith heddlu yn unig yn y DU i beidio â lleihau nifer eu swyddogion. Cafwyd trafodaeth fer ar reoli galw, a dilynwyd hyn gan drafodaeth ar

gynnydd llinol toriadau i ddarpariaeth ICAT. Dywedodd y DBG fod angen adolygiad o ddarpariaethau o'r fath.

**Cam Gweithredu: Tîm Cyfathrebu'r Heddlu i ryddhau datganiad i'r wasg ym mis Hydref yn dweud bod HDP ar sefydliad o 100%.**

**Cam Gweithredu: Cynnal Seminar Ystadau yn yr Hydref.**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd mewn perthynas â'r Panel Heddlu a Throseddu. Awgrymodd y CHTh drafodaeth rhwng y PG ag yntau cyn y seminar Ymgynefino ar gyfer aelodau Panel newydd ar 11 Medi. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â gweithgarwch y Panel yn y wasg. Diweddarodd y CHTh y Bwrdd mewn perthynas â gwasanaethau sydd wedi eu comisiynu. Mae angen ail-gomisiynu nifer o'r rhain erbyn Ebrill 2018. Dywedodd y CHTh bod angen i SCHTh gael mwy o gysylltiad gweithredol gyda'r Heddlu mewn perthynas â'r gwasanaethau comisiwn sydd ar gael. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Bwrdd Comisiynu a arweiniodd at ddiweddariad gan HDP ar y Cytundeb Rhanbarthol ar gyfer Dalfeydd a Chymorth Meddygol a fydd yn gydweithrediad rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru i ymgysylltu â'r un darparwr. Trafododd y Bwrdd ddarpariaeth Iechyd Meddwl o fewn Llwyn Iorwg yn Sir Benfro a'i symudiad i Gaerfyrddin. Dywedodd y PG mai'r ymrwymiad gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda oedd agor Caffis Gofal Argyfwng yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion.

**5. Materion i'w Hystyried**

**a. Swyddogion Diogelu Twyll**

**b. Achos Busnes ar gyfer Ymchwilydd Twyll**

Cytunwyd fod mater 'a' a 'b' yr un peth. Dywedodd y CHTh ym mis Hydref 2016 bod cofnod penderfyniad ar gyfer SCHTh i gefnogi Ymchwilydd Ariannol ychwanegol o fewn y tîm. Ym mis Chwefror 2017, cefnogodd SCHTh benderfyniad i ddau Ymchwilydd Twyll ymuno â thîm Ymgyrch ADONA yr Uned Ranbarthol Troseddau Trefnedig. Dywedodd y CHTh nad yw Ymgyrch ADNOA yn weithredol bellach, fodd bynnag, mae'r Tîm Twyll wedi mynd at SCHTh yn gofyn am i'r arian gael ei gyfeirio at un o'u mentrau eraill a fabwysiadwyd gan Heddluoedd Lloegr wyth mis yn ôl gan arwain at arbed £3 miliwn o golled dwyllodrus a 33 arést. Roedd y Bwrdd yn hapus i gefnogi un swydd Ymchwilydd Twyll yn hytrach na dau.

**Penderfyniad: Cytunodd y Bwrdd i gefnogi un swydd Ymchwilydd Twyll ar gyfer 12 mis gydag adolygiad ar ôl 6 mis. Mae hyn yn lle ariannu ymgyrch twyll arall a bennwyd yn flaenorol – cyfeiriwch at gofnod penderfyniad DLl 031.**

**c. Diweddariad ynglŷn â'r Gwerthusiad o Frysbennu Iechyd Meddwl**

Roedd y Bwrdd wedi derbyn diweddariad gan Dîm Iechyd Meddwl HDP. Dywedodd y PG y byddai'r cynllun brysbennu iechyd meddwl yn dod i ben ar 31 Rhagfyr. Ar yr un dyddiad, byddai tîm Gofal Argyfwng Sir Gaerfyrddin yn cychwyn. Cafwyd trafodaeth mewn

perthynas â sefyllfa Bryn Gofal a dywedodd y PG y byddai'n gofyn am eglurder mewn perthynas â'r datblygiadau.

**Cam Gweithredu: Y PG i ofyn am eglurder mewn perthynas â'r darpariaethau Iechyd Meddwl yn ardal Dyfed.**

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Pynciau Trafod misol yn y Bwrdd Plismona a dywedodd y PS fod angen i SCHTh ddarparu mwy o gymorth ar gyfer cyflwynwyr pwnc mewn cyfarfodydd o'r Bwrdd Plismona yn y dyfodol.

**6. Unrhyw Fusnes Arall**

**a. Grŵp Llywio Swyddogion Cymorth Cymunedol**

Dywedodd y CHTh fod angen i Lywodraeth Cymru addo y bydd yr arian ar gyfer y cynllun hwn ar gael yn y dyfodol. Roedd y PG yn cefnogi'r cyfeiriad at bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y ddogfen, ond nododd nad oedd sôn am y Gymraeg, sy'n hollbwysig yn HDP. Dywedodd y PG fod 20% o'r garfan ddiweddar o drosglwyddedigion HDP yn siaradwyr Cymraeg, a chymeradwyodd y Bwrdd hyn.

**b. Defnydd o Systemau Camera Gwyliadwriaeth Amlwg mewn mannau cyhoeddus gan Heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu**

Dywedodd y CHTh fod llythyr wedi'i dderbyn gan y Comisiynydd Gwyliadwriaeth. Dywedodd GB fod yr Arolygydd Mark Davies wedi drafftio ymateb i'r llythyr. Gofynnodd y CHTh am gopi o'r ymateb hwnnw cyn iddo gael ei anfon at y Comisiynydd Gwyliadwriaeth.

**Cam Gweithredu: Rhannu ymateb yr Heddlu â'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth â'r CHTh cyn ei gyflwyno.**

**c. Awdurdod Cyllid Cymru**

Dosbarthwyd y ddogfen hon er ystyriaeth.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 22/08/17 | | |
|---|---|---|
| **Rhif Cam Gweithredu** | **Crynodeb** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2182** | **Cam Gweithredu: PS i ymgysylltu â SCHTh Gogledd Cymru mewn perthynas â chynnwys trafodaeth ar Ddinasyddion Mewn Plismona ar agenda nesaf GPCG.** | **PS** |
| **PB 2183** | **Cam Gweithredu: PS i drefnu diweddariad gan (PR)** | **PS** |

| | | |
|---|---|---|
| | **cyn 8 Medi.** | |
| **PB 2184** | **Cam Gweithredu: Cyflwyno achos busnes cadarn ar gyfer y cyfleuster llety/hyfforddiant newydd i'r CHTh.** | **GB** |
| **PB 2185** | **Cam Gweithredu: Tîm Cyfathrebu'r Heddlu i ryddhau datganiad i'r wasg ym mis Hydref yn dweud bod HDP ar sefydliad o 100%.** | **GB** |
| **PB 2186** | **Cam Gweithredu: Cynnal Seminar Ystadau yn yr Hydref.** | **CHTh** |
| **PB 2187** | **Cam Gweithredu: Y PG i ofyn am eglurder mewn perthynas â'r darpariaethau Iechyd Meddwl yn ardal Dyfed.** | **PG** |
| **PB 2188** | **Cam Gweithredu: Rhannu ymateb yr Heddlu â'r Comisiynydd Gwyliadwriaeth â'r CHTh cyn ei gyflwyno.** | **GB** |